

Taflen Wybodaeth – Mapiau Risg

Mae'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol (Cymru) 2021 yn gofyn i bob fferm gadw map risg, i helpu i atal digwyddiadau llygru. Rhaid i chi gadw map risg o'ch daliad o 1 Ionawr 2023.

Rhaid i'r map risg ddangos:

- pob cae, gyda'i faint mewn hectarau;
- yr holl ddŵr arwyneb;
- unrhyw dyllau turio, ffynhonnau neu ffrydiau ar y *daliad* neu o fewn 50 metr i derfynau'r *daliad*;
- ardaloedd gyda *phriddoedd tywodlyd* neu *fas*;
- tir â llethr o fwy na 12° (sy'n cyfateb i 20% neu 1 mewn 5);
- tir o fewn 10 metr o ddŵr arwyneb;
- tir o fewn 50 metr o dwll turio, ffynnon neu ffrwd;
- draeniau tir (heblaw pibellau anhydraidd wedi eu selio);
- safleoedd addas ar gyfer tomenni dros dro ar gaeau, os yw'r dull hwn o storio tail yn mynd i gael ei ddefnyddio; a
- *thir sydd â risg isel y bydd dŵr yn llifo oddi arno*, os bydd tir o'r fath yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r gofynion storio *slyri*.

Beth all y map risg ei ddangos hefyd (dewisol)

Gall y map risg hefyd gael ei ddefnyddio i ddynodi nodweddion lle na fyddai'n addas chwalu tail organig, ond nad yw'n un o ofynion y rheoliadau gan gynnwys:

- unrhyw ardaloedd lle na fyddwch yn cael *chwalu* am resymau fel cytundeb tenantiaeth, neu ddynodiad (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig);
- ardaloedd sydd wedi eu dosbarthu fel "cynefin bywyd gwyllt" dan gytundeb amaeth-amgylcheddol (e.e. Glastir), ac unrhyw ardaloedd eraill lle mae cytundeb yn gwahardd *chwalu* (e.e. tir mewnbwn isel);
- ardaloedd lle mae'r arwyneb yn greigiog neu anwastad fel na all offer gael ei ddefnyddio yn effeithiol neu yn ddiogel;
- caeau neu rannau o gaeau sydd wedi eu draenio gyda phibelli, eu twrch-ddraenio neu bod pridd wedi ei godi dros ddraeniau yn ystod y 12 mis diwethaf;
- ardaloedd o goetir neu berllannau.

Diweddarau a chadw cofnodion o'ch map risg

Rhaid i chi ddiweddarau'r map risg gydag unrhyw newidiadau a rhaid i chi gadw copiâu o'ch map risg, am leiafswm o 5 mlynedd.

Gellir gweld cyfarwyddyd manwl ar sut y gallwch greu eich map risg yn lyw.cymru/rheoli-tir